# Is-Bwyllgor Datblygu Gwledig

**RDC(3)-07-10 (p1): 28 Ebrill 2010**

## Ymchwiliad i'r Diwydiant Gwin, Cwrw a Seidr yng Nghymru

## Briffi gan y Gweinidog dros Faterion Gwledig

### Cyflwyniad

1. Mae'r sector diodydd alcohol yng Nghymru wedi gweld adfywiad yn y blynyddoedd diwethaf. Mae'r nifer o fragdai gweithredol wedi cynyddu'n sylweddol gyda sefydlu microfragdai a'r twf ym mhoblogrwydd yr hen fragwyr - yn wir, mae ymchwil ddiweddar wedi dangos mai Brains yw'r brand mwyaf adnabyddus ymhlith defnyddwyr Cymru. Hefyd, mae'r gwaith o gynhyrchu seidr a pery wedi mynd o nerth i nerth yn y degawd diwethaf gyda nifer o gynhyrchwyr o Gymru yn ennill gwobrau cenedlaethol, gan gynnwys Gwobrau Cenedlaethol ar gyfer Seidr a Pherai CAMRA, Gwobrau Blas Gwych a Gwobrau Seidr Rhyngwladol. Nid oes gan Lywodraeth y Cynulliad ystadegau cymeradwy ynghylch faint o gwrw a seidr sy'n cael ei gynhyrchu yng Nghymru.

2. Mae'r diwydiant cynhyrchu gwin yng Nghymru yn parhau'n fach oherwydd cyfyngiadau'r hinsawdd. Ar hyn o bryd mae tua 12 o winllannoedd cofrestredig yng Nghymru, sy'n cyfateb i 7Ha o dir sy'n cael ei drin (Canolfan Defnydd Tir Amgen, 2009). Yn Sir Fynwy a Bro Morgannwg y mae'r rhan fwyaf ohonynt. Nid oes gan Lywodraeth y Cynulliad ystadegau cymeradwy ynghylch faint o win sy'n cael ei gynhyrchu yng Nghymru. Yn 2008, cafodd ychydig 10000 hectolitr ei gynhyrchu yn y Deyrnas Unedig, ychydig yn llai na'r cyfartaledd. Amcangyfrifir bod canran y gwin o Gymru a Lloegr yn llai nag 1% o'r holl win sy'n cael ei werthu yn y Deyrnas Unedig.

### Rôl Llywodraeth Cynulliad Cymru

3. **Marchnata / Hyrwyddo**

   Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i gefnogi ymdrechion i ddatblygu'r diwydiant bwyd a diod yng Nghymru. Cylch gwaith yr Is-adran Datblygu Bwyd, Pysgodfeydd a'r Farchnad (FFMDD) yn y Cynulliad yw helpu'r diwydiannau cynhyrchu bwyd, a phrosesu bwyd a diodydd yng Nghymru i ddatblygu ac i dyfu

4. **Digwyddiadau hyrwyddo sy'n benodol i'r diwydiant**

   Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cefnogi pedair gŵyl sy'n canolbwyntio ar y sector diodydd, sef Gŵyl Fawr Cwrw a Seidr Cymru / The Great Welsh Beer & Cider Festival; Gŵyl Gellyg a Pherai Sir Fynwy/Monmouthshire Pear & Perry Festival; Gŵyl Perai a Seidr Cymru / Welsh Perry & Cider Festival a Gŵyl Cwrw, Seidr, Perai a Chynnyrch Lleol y Gorllewin / West Wales Beer, Cider, Perry & Local Produce Festival. At ei gilydd, mae'r gwyliau hyn yn cael cymorth gwerth £63,000 o dan y Rhaglen Grantiau i Wyliau Bwyd, sy'n rhan o Gynllun Effeithlonrwydd y Gadwyn Gyflenwi a ariennir gan Gynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007-2013. Mae'r Cynllun Datblygu Gwledig yn cael ei gyllido gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a'r Undeb Ewropeaidd.

Mae'r Is-adran Datblygu Bwyd, Pysgodfeydd a'r Farchnad hefyd yn chwarae rhan bwysig mewn cydlynu 'Wythnos Gwin Cymru' sydd â'r nod o ysgogi diddordeb yng nghynhyrchwyr gwin a gwinllannoedd Cymru. Yn yr ŵyl, mae cynhyrchwyr ledled y wlad yn cynnig sesiynau blasu, teithiau a digwyddiadau hyrwyddo arbennig er mwyn hysbysebu ansawdd gwin Cymru.

Mae'r cynhyrchwyr hefyd yn cael cyfle i ymgeisio yn y Gwobrau Gwir Flas blynyddol sy'n cael eu rheoli gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac sydd â chategori sy'n canolbwyntio ar ddiodydd alcoholig. Hyd yn hyn, mae 12 o gynhyrchwyr wedi elwa ar y cyfle i hyrwyddo'u cynnyrch o dan faner Gwir Flas yn ogystal â'r cyfle i gymryd rhan mewn digwyddiadau i brynwyr a masnachwyr, fel y True Taste Market a gynhaliwyd yn ddiweddar yn Llundain.

## 5. Cymorth Busnes Uniongyrchol

O dan Gynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007-2013, gallai cynhyrchwyr gwin, cwrw a seidr yng Nghymru fod yn gymwys i gael cymorth o dan y Cynllun Grantiau Prosesu a Marchnata a Chynllun Effeithlonrwydd y Gadwyn Gyflenwi.

Mae'r Cynllun Grantiau Prosesu a Marchnata (PMG) yn rhoi arian at fuddsoddiadau cyfalaf sy'n ychwanegu gwerth at gynnyrch amaethyddol a choedwigaeth. Mae Cynllun Effeithlonrwydd y Gadwyn Gyflenwi yn rhoi arian at brosiectau cydweithredu i ddatblygu nwyddau, prosesau a thechnolegau newydd yn y sectorau amaethyddiaeth, bwyd a choedwigaeth. Mae'r ddau gynllun yn cael eu hariannu gan Gynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007-2013 sy'n cael ei gyllido gan Lywodraeth y Cynulliad a'r Undeb Ewropeaidd.

At ei gilydd, mae buddsoddiad grant gwerth £591,534.00 wedi'i roi i gwmnïau yn y sector hwn dros y pum mlynedd ddiwethaf i gefnogi buddsoddiad cyfalaf, brandio a marchnata. Mae'r tabl isod yn dangos yr hyn a roddwyd i gwmnïau:

**Buddsoddiad gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn y Sector Cwrw, Gwin, Seidr a Gwirodydd yn 2005-10**

| Blwyddyn | Cyfanswm y Buddsoddiad £ | Cyfanswm y Grant £ | Nifer y Prosiectau | Math o Fuddsoddiad |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| 2005 | Dim | | | |
| | | | | |
| 2006 | £17,480 | £8,740.00 | 1 | Cwrw – buddsoddiad cyfalaf |
| | £269,300 | £107,720.00 | 1 | Seidr – buddsoddiad cyfalaf |
| | £22,987 | £15,243.00 | 2 | Seidr – buddsoddiad cyfalaf |
| | | | | |
| 2007 | £12,000 | £6,000.00 | 1 | Cwrw - marchnata |
| | £950 | £475.00 | 1 | Seidr – buddsoddiad cyfalaf |
| | £7,500 | £3,750.00 | 1 | Gwirodydd - marchnata |
| | | | | |
| 2008 | £61,875 | £30,437.00 | 6 | Cwrw - marchnata |
| | £5,000 | £1,992.00 | 1 | Cwrw – buddsoddiad |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | cyfalaf |
| | £6,630 | £3,315.00 | 1 | Seidr -marchnata |
| | | | | |
| 2009 | £3,900 | £1,560.00 | 1 | Gwin - marchnata |
| | £385,171 | £371,000.00 | 1 | Effeithlonrwydd y Gadwyn Gyflenwi Seidr a Pherai |
| | | | | |
| 2010 | £82,604 | £41,302.00 | 1 | Seidr - buddsoddiad cyfalaf |
| | | | | |
| **Cyfanswm** | **£875,397** | **£591,534.00** | **18** | |

Ffynhonnell: yr Uned Rheoli Cynlluniau*, FFMDD*

**6. Hybu cydweithredu yn y sector**

Fel rhan o waith FFMDD o ran hybu cydweithredu yn unol â Chynllun Effeithlonrwydd y Gadwyn Gyflenwi, mae Cymdeithas Perai a Seidr Cymru newydd gael £388,000 ar gyfer rhaglen i weddnewid y gymdeithas yn gwmni proffesiynol i hyrwyddo Perai a Seidr Cymru. Bydd yn cael ei ariannu o dan Gynllun Effeithlonrwydd y Gadwyn Gyflenwi, sy'n rhan o Gynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007-2013. Mae'r Cynllun Datblygu'n cael ei gyllido gan Lywodraeth Cynulliad Chymru a Chronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig.

Bydd prosiect y Gymdeithas yn cynnwys rhoi cymorth, cyngor ac arweiniad technegol ar gyfer tyfu cynnyrch a rheoli perllannau, cynaeafu a storio ffrwythau a safonau rheoli ansawdd ar gyfer cynhyrchu a phrosesu ffrwythau. Bydd yn rhoi cymorth i gynyddu capasiti grwpiau o berchnogion perllannau a chynhyrchwyr seidr / perai gan hyrwyddo arferion gwaith cydweithredol a / neu gydlynol ac arferion a fydd yn dod â mwy o fudd i berchnogion perllannau a thyfwyr, a hynny trwy amrywiaeth o fentrau marchnata a brandio i godi proffil cynnyrch seidr a pherai o Gymru.

Bydd Swyddog Datblygu amser llawn yn arwain y prosiect dros gyfnod o dair blynedd (o 1 Tachwedd 2009 hyd at 31 Hydref 2012). Bydd ei rôl hefyd yn cynnwys monitro a rheoli'r gwaith o gofrestru Seidr o Gymru a Pherai o Gymru fel Enw Tarddiad Gwarchodedig (PDO).

**7. Capasiti prosesu Cwrw, Seidr a Gwin yng Nghymru**

Ym mis Medi 2006, comisiynodd Llywodraeth y Cynulliad astudiaeth dichonoldeb i ymchwilio i nifer y cyfleusterau potelu alcohol yng Nghymru a pha mor gyfleus ydynt. Bu'r astudiaeth hefyd yn gweld a oedd cyfleusterau potelu alcohol yng Nghymru ar hyn o bryd y gallai'r cynhyrchwyr bach eu defnyddio, gan asesu pa mor ymarferol fyddai creu cyfleuster potelu arbenigol.

Bu'r astudiaeth yn holi 29 o gynhyrchwyr, a daeth i'r casgliad nad oedd galw ar hyn o bryd am gyfleuster potelu gwin yng Nghymru - a chadarnhawyd bod y cyfleusterau presennol yn Three Choirs, Swydd Gaerloyw, yn darparu gwasanaeth ardderchog i'n cynhyrchwyr gan nodi nad oedd llawer o ddiddordeb mewn cydberchnogaeth ar gyfleusterau potelu seidr, perai neu gwrw.

**<u>Cyfleoedd i gynyddu cynhyrchu ar lefel gynradd yng Nghymru</u>**

**8. Cynllun Glastir**

Roedd cytundeb 2008 ar broses Archwiliad Iechyd y PAC, yr Undeb Ewropeaidd, yn dangos newid amlwg tuag at ofyn am ymateb i sialensiau newid yn yr hinsawdd, dal carbon, rheoli dŵr a bioamrywiaeth. Mewn ymateb i hyn, cyhoeddodd Llywodraeth y Cynulliad y byddai 4 cynllun sy'n cael eu darparu o dan Gynllun Datblygu Gwledig Cymru (Tir Gofal, Tir Mynydd, Tir Cynnal a'r Cynllun Ffermio Organig / y Cynllun Troi at Ffermio Organig) yn cael eu disodli gan un cynllun newydd - sef Glastir.

Bydd Cynllun Glastir ar waith o 1 Ionawr 2012. O dan y cynigion presennol, mae dau opsiwn i grynhoi pwyntiau o dan Elfen Cymru Gyfan Glastir, sef yn ymwneud ag adfer perllannau traddodiadol, neu â phlannu perllannau traddodiadol newydd, gan gydnabod cyfraniad gwneud hynny at werth bioamrywiaeth y dirwedd.

**9. Cynllun y Taliad Sengl**

O dan drefniadau newydd yn sgil diwygio'r PAC yn 2008, mae tir sy'n cael ei ddefnyddio i gynhyrchu ffrwythau a llysiau, gan gynnwys gwinllannoedd a pherllannau yn gymwys i ymuno â Chynllun y Taliad Sengl cyn belled â'u bod yn cydymffurfio â'r rheolau.

Mae'r newid hwn yn ei gwneud hi'n fwy deniadol i dirfeddianwyr arallgyfeirio i arddwriaeth, gan gynnwys gwinllannoedd a pherllannau, ac mae'r rhoi cymorth am y tro cyntaf i gynhyrchwyr garddwriaethol. Mae hyn yn mynd rhan o'r ffordd i helpu i gynnal busnesau a chymunedau.

**10. Hyfforddiant**

Mae'r Ganolfan Defnydd Tir Amgen (CALU) wedi'i chomisiynu i ddarparu Cynllun Datblygu Trosglwyddo Gwybodaeth Cyswllt Ffermio ar gyfer Reoli Tir ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r rhaglen yn cynnwys rhoi cymorth technegol ac ymarferol i winllannoedd a pherllannau.

Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd wedi gweithio gyda Defra i ddarparu'r rhaglen hyfforddi newydd 'Wineskills', (a lansiwyd ym mis Chwefror 2010). Ei nod yw sicrhau bod cynhyrchwyr gwin a thyfwyr yn y DU yn gallu cael gafael ar yr wybodaeth a'r sgiliau hanfodol sydd eu hangen arnynt i allu gwneud gwin o ansawdd da, gan sicrhau bod y twf presennol yn y sector gwin yng Nghymru a Lloegr yn gynaliadwy.

Mae'r rhaglen hon yn cael ei darparu gan Plumpton College, Sussex. Bydd yn rhedeg am 3 blynedd, ac mae'n cael lawer o nawdd o'r arian Ewropeaidd a gafodd ei roi i'r DU yn sgil Wine Reform 2008. Ar hyn o bryd, mae'r cyfleoedd hyfforddiant hyn yn cynnwys gweithdai sy'n cael eu darparu'n rhanbarthol yn ôl y galw, dosbarthiadau meistr misol sy'n cael eu cynnig gan arbenigwyr o fri rhyngwladol, a chynllun mentora i gynhyrchwyr gwin.

## Trethi, Tollau a Pholisi

**11. Seidr a Chwrw**

Nid yw'r Dreth ar Seidr yn yr Adroddiad Rhag-gyllidebol yn dod o dan bwerau sydd wedi'u datganoli i Lywodraeth y Cynulliad, a byddai angen rhoi sylw iddi ar lefel y DU gyfan.

Mae cynhyrchwyr seidr bychan (sef cynhyrchu < 70 hectolitr y flwyddyn) wedi'u heithrio rhag talu toll gartref. Mae'r un peth yn wir am fragwyr cwrw bychan – mae

bragwyr sy'n cynhyrchu 5,000 hectolitr y flwyddyn yn gymmwys ar gyfer graddfa arbennig o dreth ar gwrw, sef 50% o raddfa genedlaethol y dreth honno, ac mae cynhyrchwyr hyd at 60,000 hectolitr hefyd yn cael gostyngiad yn y dreth.

Trysorlys Ei Mawrhydi sy'n gyfrifol am y gostyngiadau hyn yn y dreth. Fodd bynnag mae'r Gweinidog wedi anfon materion a godir gan ein cynhyrchwyr at Drysorlys Ei Mawrhydi i'w hystyried.

**12. Gwin**

Defra sy'n gyfrifol am noddi'r diwydiant gwin ac mae hefyd yn gyfrifol am weithredu polisïau sy'n ymwneud â gorfodi Rheoliadau Gwin a Deddfwriaeth gysylltiedig yr UE ac Ewrop trwy gydweithio'n agos â'r llywodraethau datganoledig.

**<u>Casgliad</u>**

**13.** Ystyrir y gall y Newid yn yr Hinsawdd fod o fudd i ddiwydiant gwin Cymru, trwy wella ansawdd a chynhyrchu, ond gallai fod sialensiau hefyd - fel problemau amrywiol o ran rheoli plâu a chlefydau yn sgil cael gaeafau gwlypach a mwynach. Fodd bynnag, mae angen hinsawdd gynhesach a mwy heulog i dyfu gwinwydd i gynhyrchu grawnwin sy'n addas at y diwydiant ffrwythau meddal sy'n dderbyniol i brynwyr. Tyfu gwinwydd ar gyfer cynhyrchu gwin yw'r unig opsiwn ymarferol sydd ar gael i gynhyrchwyr yng Nghymru ar hyn o bryd.

**14.** Wrth i'r diddordeb mewn Cwrw, Seidr a Pherai a gynhyrchir gan grefftwyr ac arbenigwyr gynyddu, bydd y diwydiant yng Nghymru yn parhau i ffynnu. Gallai buddsoddiad cyfalaf, y capasiti prosesu a mynediad at hyfforddiant fod yn rhwystrau yn y diwydiant tyfu. Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i leihau'r rhwystrau hyn lle bynnag y bo hynny'n bosibl.

**15.** Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ymwybodol bod yna broblemau yn ymwneud â'r doll a'r dreth, ac er mai cyfrifoldeb Trysorlys Ei Mawrhydi yr rhoi sylw i hyn ar lefel y DU, bydd ein swyddogion yn parhau i hysbysu'r Trysorlys am bryderon cynhyrchwyr.

**ELIN JONES**
**Y Gweinidog dros Faterion Gwledig**